

Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant Community Council

Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.
E bost: clerc.cyngor.llanfihangel.council@gmail.com Ffôn: 07974795778

Annwyl Gyfaill

CYNHELIR CYFARFOD NESAF CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT *Nos Lun y 9fed o Hydref am 7.00pm yn y Ganolfan, Abergynolwyn.*

Nodyn ar gyfer y cyhoedd. Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer, gan gynnwys gwneud hynny yn rhithiol os oes angen. (Deddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau 2021 Adran 47 – cyfarfod aml-leoliad) . Cysyllter â'r Clerc am fanylion o leiaf 3 diwrnod llawn cyn y cyfarfod, er mwyn sicrhau fod y trefniadau priodol mewn lle.

Croeso ichwi gysylltu os ydych eisiau gair
Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

CLERC

.....

AGENDA

1. Gair o groeso a derbyn ymddiheuriadau. Gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.
2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)
3. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gyfarfu ar y 11eg o Fedi – gweler yn atodol.
4. **Materion yn codi,**
 - a) Torri gwair mynwentydd a'r cae chwarae – a'r angen cael tendrau newydd ar gyfer 2024.
 - b) Costau claddedigaethau /prynu plotiau
 - c) Gwaith gyda HMRC – PAYE i'r Clerc – Cwmni Evans & Owen, Dolgellau.
 - d) Gwaith paentio ar offer yn y Cae chwarae – ystyried tendrau i law.
 - e) Rheilffordd Talyllyn – ystyried y diweddaraf
 - f) Coeden yn difrodi wal – ystyried y diweddaraf.

g) Gwefan y Cyngor – ystyried cynnig i law i weinyddu y wefan gan HG Web Designs.

h) Contract gwaith i'r Clerc.

i) Safle Treftadaeth.

j) Cartref Mari Jones

5. Materion Cynllunio

NP5/67/16G – Adeiladu sied amaethyddol dros y storfa dail bresennol- Ty'n y Bryn, Llanfihangel y Pennant

6.Materion Cyllid.

Anfoneb Major & Evans – gwaith PAYE y Clerc - £90.00

Cais am gymorth ariannol – Eisteddfod Abergynolwyn.

7. Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)

8..Adroddiad Elwyn Evans , cynrychiolydd Un Llais Cymru.

9. Gohebiaeth.

10. Hyfforddiant Cynghorwyr

11. Rheolau Sefydlog newydd a pholisiau i'w derbyn. .

12. Unrhyw fater arall